# Adroddiad Materion yn Codi
ar gyfer Cyngor Cymuned Trearddur
Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Cyflwyniad

Mae’r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw Cyngor Cymuned Trearddur at eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw’r archwilydd. Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw’r unig rai sy’n bodoli.

Mae’r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio’n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy’n dilyn

Materion a godwyd

- Pwerau gwariant - pŵer A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir

Mae’r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu’r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

**Pwerau gwariant - pŵer A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir**

*Beth yw'r mater?*

Gwnaethpwyd taliadau i un neu ragor o'r canlynol: clwb/clybiau cymdeithasol, chwaraeon neu ieuenctid lleol, allai fod wedi cael ei awdurdodi dan A19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, y pŵer i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn a thu hwnt i'r ardal.

Cafodd taliad ei wneud i Neuadd Bentref/canolfan gymunedol leol allai fod wedi cael ei awdurdodi dan Adran 19(3) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n caniatáu gwneud cyfraniadau tuag at redeg neu ddodrefnu adeiladau i'w defnyddio ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus.

*Pam mae'r mater wedi cael ei godi*

Cofnododd y Cyngor eitemau fel taliadau Adran 137 yn anghywir, lle'r oedd grymoedd statudol eraill yn bodoli. Ni ellir cofnodi taliad dan Adran 137 os oes grym statudol arall yn bodoli.

*Beth yw'n hargymhelliad i chi?*

Yn y dyfodol rhaid i'r cyngor sicrhau eu bod yn adolygu'r rhestr grymoedd statudol sydd ar gael i'r cyngor er mwyn sefydlu a oes grym yn bodoli cyn dibynnu ar Adran 137 i awdurdodi taliad. Dylai'r grym statudol sy'n cael ei ddefnyddio i awdurdodi gwariant gael ei gofnodi wrth ochr yr eitem i ddangos fod y cyngor neu'r cyfarfod wedi dilyn eu rheolau sefydlog a'u rheoliadau ariannol yn briodol.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o’r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

**Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.**

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:19 Tachwedd 2020